# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Rhagfyr 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa ddarpariaethau cyfreithiol all ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac sydd â chymeriad crefyddol, ddibynnu arnynt i amddiffyn y cymeriad crefyddol hwnnw drwy’u polisi derbyn. (WAQ21396)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa ddarpariaethau statudol sy'n bodoli i ganiatáu i ysgolion gwirfoddol a gyorthwyir, ac sydd â chymeriad crefyddol, ddiogelu'r cymeriad crefyddol hwnnw drwy neilltuo 75% o'r derbyniadau posibl ar gyfer disgyblion o'r gymuned grefyddol honno. (WAQ21397)

**Helen Mary Jones (Llanelli);** All y Gweinidog ddatgan faint fydd y cynnydd yng ngwariant addysg Cymru dros y tair blynedd o Ebrill 2003, yn unol â darpariaethau cyllideb y Cynulliad. (WAQ21398)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o arian ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i ysgolion y Strade, Bro Myrddin a Maes yr Yrfa i gyflwyno'r dewis i ddisgyblion i dderbyn gwersi gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ21408) **W**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg*

**David Ian Jones (Gogledd Cymru);**Pa gynlluniau wrth gefn sy’n bodoli i sicrhau bod chwaraeon yng Nghymru'n parhau i dderbyn arian digonol yn sgil y gostyngiad ym mhoblogrwydd y Loteri Cenedlaethol. (WAQ21399)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Melding (Canol De Cymru);**A wnaiff y Gweinidog osod targed ar gyfer cynyddu nifer y rheolyddion calon sy’n cael eu mewnosod yng Nghymru (fesul miliwn o'r boblogaeth). (WAQ21400)

**David Melding (Canol De Cymru);**Beth yw'r gyfradd ar gyfer mewnosod rheolyddion calon yng Nghymru (fesul miliwn o'r boblogaeth). (WAQ21401)

**David Melding (Canol De Cymru);**Faint o gleifion yng Nghymru sy'n aros am reolydd calon. (WAQ21402)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau mewnosod rheolyddion calon yng Nghymru. (WAQ21406)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i Wasanaeth yr Ambiwlans Awyr. (WAQ21407) **W**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau a gafwyd gyda'r Cabinet a sefydliadau allanol cyn cyhoeddi’r newyddion am sefydlu Canolfannau Rhyngwladol Cymru. (WAQ21403)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pwy wnaeth y cyhoeddiad ar 1 Mawrth 2002 am sefydlu Canolfannau Rhyngwladol Cymru. (WAQ21404)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ble wnaed y cyhoeddiad am sefydlu Canolfannau Rhyngwladol Cymru ar 1 Mawrth 2002. (WAQ21405)

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Beth yw cyfanswm cost flynyddol Pwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad dros y tair blynedd diwethaf. (WAQ21409)